# Proffil Sgiliau Digidol
## Cyflogwyr


©Arad Goch

# Cwmni Theatr Arad Goch

### Cwmni
Cwmni Theatr Arad Goch

### Maint y Cwmni
8 o staff parhaol ond hyd at 20 gyda chontractau dros dro

### Sefydlwyd
1989

### Lle mae'r cwmni wedi'i leoli
Aberystwyth

### Enghreifftiau o rolau nodweddiadol i raddedigion
Technegwyr
Actorion
Swyddog Cyswllt ag Ysgolion
Cynorthwyydd Gweinyddol
Swyddog Marchnata

## Sgiliau Digidol Hanfodol sy'n Werthfawr yn ein barn ni

| | |
|---|---|
| **Hyfedredd Digidol** | Defnyddio meddalwedd Microsoft, meddalwedd cyflogres SAGE ar gyfer cyllid, rhaglenni meddalwedd ar gyfer rhedeg goleuadau cynhyrchu, sain ac ati. |
| **Creadigrwydd Digidol** | Adobe Photoshop ar gyfer taflenni a phosteri, dylunio a diweddaru'r wefan, meddalwedd golygu fideo |
| **Cyfathrebu Digidol** | Negeseuon e-bost a galwadau fideo |

### Pa mor bwysig yw'r cyfryngau cymdeithasol yn y busnes?
"Mae'n chwarae rôl mewn llawer o'n swyddi. Mae popeth drwy e-bost nawr ond byddai angen i'r swyddogion marchnata hyrwyddo ein digwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws ein holl gyfryngau cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o'n marchnata yn cael ei wneud trwy'r cyfryngau cymdeithasol nawr."

### Beth yw eich cyngor mwyaf i rywun sy'n ceisio cael swydd yn eich sector?
"Profiad! Rwy'n gwybod ei fod yn dipyn o gyfyng-gyngor oherwydd allwch chi ddim cael swydd heb gael y profiad ond mae cael y profiad hwnnw, hyd yn oed trwy wirfoddoli, wir yn agor drysau!""

### Ydych chi'n meddwl bod pobl yn anwybyddu pwysigrwydd sgiliau digidol yn y diwydiannau creadigol?
"Ydyn, mae'n rhan bwysig iawn o'n diwydiant. Mae dangos yr hyn sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni yn ffordd dda o gyfleu'r neges ac felly er enghraifft rydym yn gwneud fideos o'r cynyrchiadau i ennyn diddordeb pobl. Felly mae sgiliau mewn marchnata digidol er enghraifft yn hanfodol i ni."

### Beth nad ydych chi'n gweld digon ohono o ran y sgiliau digidol hyn?
"Mae technegwyr yn brin iawn felly mae dod o hyd i bobl ar gyfer y rolau hynny yn eithaf anodd. Nid yw'n ymddangos bod gan lawer o bobl brofiad o farchnata chwaith.

[Gwefan Arad Goch]